

Mae dau gymhwyster mathemateg: TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd. Mae gan fyfyrwyr ddewis o dair haen gofrestru: sylfaen, canolradd ac uwch.

Mae set wahanol o raddau ar gael ym mhob haen. Mae graddau A* i C ar gael yn yr haen uwch, graddau B i E yn yr haen ganolradd a graddau D i G yn yr haen sylfaen.

Am fod yr haenau hyn yn gorgyffwrdd (er enghraifft, mae graddau B ac C ar gael yn yr haen ganolradd a'r haen uwch), bydd y papurau arholiad yn cynnwys rhywfaint o gwestiynau cyffredin. Mae CBAC yn defnyddio'r cwestiynau hyn i sicrhau bod lefel yr anhawster i ennill gradd C, er enghraifft, yr un peth, ni waeth pa haen a gaiff ei dewis gan fyfyrwr.

Am mai dim ond set fach o'r graddau y mae'r haenau hyn yn ei thargedu, mae'n bwysig bod yn ofalus wrth ystyried ffiniau graddau. Er enghraifft, yn y papur haen uwch, mae graddau A*, A, B ac C ar gael, ac mae tua chwarter y cwestiynau yn targedu pob gradd. Mae hyn yn helpu i esbonio, fel rhan o'r cymwysterau newydd hyn, fod gradd C tua 20% o gyfanswm y marciau yn yr haen honno. Fodd bynnag, bydd ffiniau graddau yn newid gyfres ar ôl cyfres wrth i fyrddau arholi benderfynu arnynt bob blwyddyn er mwyn adlewyrchu pa mor anodd yw'r papurau.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein herthygl ar osod ffiniau graddau os gwelwch yn dda.

Pwy sy'n sefyll arholiadau'r cymwysterau hyn yr haf hwn?

Yr haf hwn, rydym wedi gweld rhywfaint o newidiadau i batrymau cofrestru, gyda thua 23,000 o fyfyrwyr Blwyddyn 11 yn sefyll arholiadau TGAU Mathemateg a thua 19,500 yn sefyll arholiadau TGAU Mathemateg-Rhifedd. Mae nifer y myfyrwyr sydd wedi cael eu cofrestru ar gyfer y ddau gymhwyster wedi lleihau o gymharu â haf 2017 (lleihad o 9% ar gyfer TGAU Mathemateg a lleihad o 4% ar gyfer TGAU Mathemateg-Rhifedd). Mae hyn am y bydd rhai ohonynt wedi sefyll yr arholiadau yn ystod haf 2017 (fel myfyrwyr Blwyddyn 10) neu ym mis Tachwedd 2017 a dim ond cyfran fydd yn dychwelyd yr haf hwn gyda'r gobaith o wella eu graddau. Fodd bynnag, bydd myfyrwyr hefyd yn sefyll arholiadau'r pwnc am y tro cyntaf yr haf hwn.

Mae'r data cofrestru hefyd yn dangos i ni fod lleihad sylweddol yr haf hwn yn nifer y myfyrwyr Blwyddyn 10 sydd wedi cael eu cofrestru o gymharu â blynyddoedd blaenorol (lleihad o 94% ar gyfer TGAU Mathemateg a lleihad o 84% ar gyfer TGAU Mathemateg-Rhifedd). Y rheswm dros y lleihad yn nifer y cofrestriadau yw'r newid i fesurau perfformiad ysgolion, sy'n golygu mai dim ond canlyniad cyntaf myfyriwr fydd yn cyfrif o haf 2019.

Gall ysgolion benderfynu pryd i gofrestru myfyrwyr ar gyfer arholiadau, ac nid oes un dull penodol sy'n gweithio i bob myfyriwr. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod myfyrwyr wedi astudio cynnwys y cymhwyster er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddynt ennill eu gradd orau posibl.

Beth mae hyn yn ei olygu i'r canlyniadau yr haf hwn?

Mae'r patrymau cofrestru gwahanol hyn yn debygol o effeithio ar ganlyniadau mathemateg cyffredinol terfynol Cymru yr haf hwn. Bydd yn anodd gwneud cymariaethau ystyrllon o flwyddyn i flwyddyn yr haf hwn oherwydd y newidiadau i'r garfan; bydd llawer o fyfyrwyr wedi ennill eu graddau yn ystod haf 2017 neu fis Tachwedd 2017 ac ni fyddant yn sefyll arholiadau mathemateg yr haf hwn. Bydd angen dehongli a chymharu canlyniadau cyffredinol yr haf yn ofalus.

Bydd ein cymariaethau yn seiliedig ar ganlyniadau gorau myfyrwyr sy'n gorffen Blwyddyn 11 yr haf hwn; mae hyn yn golygu, os enillodd myfyriwr radd well yn gynharach yn y cwrs, mai dyna'r radd y byddwn yn ei defnyddio wrth gymharu canlyniadau â chanlyniadau Blwyddyn 11 o flynyddoedd blaenorol.

I gael rhagor o wybodaeth am y ddau gymhwyster hyn, gweler ein cerdyn **post**.

